Mair yn ymweld ag Elisabeth

Luc 1:39-56

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	Mair yn ymweld ag Elisabeth		
1	Cyn gynted ag y gallai ar ôl iddi ddeall ei bod hi'n feichiog (yn disgwyl babi) dyma Mair yn mynd i'r dref yng nghanol bryniau Jwda lle roedd Sachareias ac Elisabeth yn byw. (Roedd Mair yn perthyn i Elisabeth).		
2	Pan gyrhaeddodd y tŷ dyma hi'n cyfarch Elisabeth, a dyma fabi Elisabeth yn neidio yn ei chroth hi. Cafodd Elisabeth ei hun ei llenwi â'r Ysbryd Glân pan glywodd lais Mair, a gwaeddodd yn uchel: "Mair, rwyt ti wedi dy fendithio fwy nag unrhyw wraig arall, a bydd y babi rwyt ti'n ei gario wedi'i fendithio hefyd!		

3	Pam mae Duw wedi rhoi'r fath fraint i mi? – cael mam fy Arglwydd yn dod i ngweld i! Wir i ti, wrth i ti nghyfarch i, dyma'r babi sydd yn fy nghroth i yn neidio o lawenydd pan glywais dy lais di. Rwyt ti wedi dy fendithio'n fawr, am dy fod wedi credu y bydd yr Arglwydd yn gwneud beth mae wedi'i ddweud wrthot ti.”	
4	A dyma Mair yn ymateb: “O, dw i'n moli'r Arglwydd! Roedd yn gwybod bod ei forwyn yn ferch gyffredin iawn, ond o hyn ymlaen bydd pobl o bob oes yn dweud fy mod wedi fy mendithio."	
5	Mae wedi defnyddio'i rym i wneud pethau rhyfeddol! – Mae wedi gyrru y rhai balch ar chwâl. Mae wedi cymryd eu hawdurdod oddi ar lywodraethwyr, ac anrhydeddu'r bobl hynny sy'n ‘neb‘.	
6	Mae wedi rhoi digonedd o fwyd da i'r newynog, ac anfon y bobl gyfoethog i ffwrdd heb ddim! Mae wedi helpu ei was Israel, a dangos trugaredd at ei bobl."	
7	Arhosodd Mair gydag Elisabeth am tua tri mis cyn mynd yn ôl adre.	

8	Cyfieithiad beibl.net	